Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

WILLIAMS, JOHN (RUFUS) ('Rufus '; 1833 - 1877); gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac awdur

Enw: John (rufus) Williams
Ffugenw: Rufus
Dyddiad geni: 1833
Dyddiad marw: 1877
Priod: N. Williams (née Jenkins)
Priod: Mary Williams (née Davies)
Rhiant: Hannah Williams
Rhiant: William Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd ym Merthyr Tydfil 5 Mai 1833, yn fab i William a Hannah Williams, aelodau yn Abercanaid, lle y bedyddiwyd yntau yn 1848. Bu'n gweithio'n ifanc yng ngwaith haearn Pentre-bach, ond dechreuodd bregethu 24 Ebrill 1850, ac yn Ionawr 1855, wedi dwy flynedd o addysg mewn ysgol a gedwid ym Merthyr gan Thomas Davies (wedi hynny prifathro Coleg y Bedyddwyr, Hwlffordd), aeth i goleg Pontypwl. Yn 1859 ordeiniwyd ef gyda'r Saeson yn Nowlais, lle y bu hefyd yn cadw ysgol i fyfyrwyr gweinidogaethol, ac ar 6 Ionawr 1861 symudodd at y Cymry i Nebo, Ystradyfodwg, lle yr arhosodd hyd ei farwolaeth 12 Chwefror 1877. Priododd (1) 1866, â Mary Davies, merch Thomas Davies, Ynys y Maerdy, gerllaw Llantrisant, a fu farw ymhen ychydig gyda dwy flynedd; (2) â N. Jenkins, aelod yn eglwys Nebo. Er byrred ei oes, daeth 'Rufus' yn wr amlwg iawn ym mywyd ei enwad, fel pregethwr, cynadleddwr, a hanesydd. Bu'n gydysgrifennydd (yn ôl pob tebyg, yn brif ysgrifennydd) Undeb Bedyddwyr Cymru o'r cychwyn yn 1866 hyd 1874, a chyhoeddodd nifer o'r *Llawlyfrau* cynnar ar ei draul ei hun. Nid oedd yr Undeb yn gymeradwy ar y cychwyn, gan yr holl gymanfaoedd, ac i ' Rufus ' yn bennaf y mae'r diolch am symud y rhagfarnau cynnar a gododd yn erbyn y mudiad. Fel hanesydd enwadol, cyhoeddodd ddwy gyfres o ysgrifau yn *Seren Cymru*, y naill ar hanes Athrofeydd y Bedyddwyr (a gasglwyd yn gyfrol yn 1863) a'r llall ar hanes Bedyddwyr Ystradyfodwg (a gyhoeddwyd yn gyfrol dan y teitl *Ystradiana* yn 1886); ysgrifennodd hanes cymanfa Morgannwg yn *Llythyr* 1873; a thraddododd anerchiad i'r undeb yn 1875 ar ' Hanes Addysg Weinidogaethol ' ymhlith y Bedyddwyr yng Nghymru a sir Fynwy. Bu hefyd yn gyd-olygydd *Yr Athraw* o 1864 hyd ei farw, a chyhoeddodd gyfrol o bregethau ac ysgrifau ar bynciau Beiblaidd dan y teitl *Gweithiau Rufus*, i, 1873 (un gyfrol yn unig a ymddangosodd). At hyn oll, bu'n arbennig o weithgar yn y Rhondda mewn cyfnod o lanw diwydiannol, a ffrwyth ei lafur ef yn bennaf yn y 60'au diweddar oedd corffori eglwys Saesneg Ystrad ac eglwysi Hebron (Ton), Noddfa (Treorci), a Moreia (Pentre).

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Y Geninen, 1907, 20 (D)

Baptist Handbook, 1878

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1938, 44

Yr Athraw, 1877, 67, 99, 121, 152. 185, 259, 281

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, 1877, 68; 1886, 258

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361702

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owens, B. G., (1953). WILLIAMS, JOHN (RUFUS) ('Rufus '; 1833 - 1877); gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-RUF-1833

Copïo i'r clipfwrdd

Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government